# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

## Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor - nos Iau, 5ed o Hydref 2023 yn brydlon am 7:00 y.h. yn Neuadd Chwilog a drwy Zoom (roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc).

**Yn bresennol** Y Cynghorwyr Sian Angharad Parry (Cadeirydd), Aled Lloyd Evans (Is-gadeirydd), Aled Davies, Rhys Tudur, Anwen Jones, Tegid Jones, Margaret Griffith, Darren Morley, Angela Williams, Delyth Parry, Miriam Williams, a'r Clerc.

1. **Ymddiheuriadau** – Gareth O. Davies, Dylan Thomas, Euros Jones a Sion Aled Jones.

2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 7fed o Fedi 2023.

3. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS Medi 2023 (Cadeirydd yn ei llofnodi).

4. **Datgan buddiant personol - neb.**

5. **Materion gan Cyngor Gwynedd**

**Rhaglen waith trafnidiaeth a priffyrdd mis Hydref 2023**

| Lleoliad Gwaith | Disgrifiad o'r Gwaith | Gwasanaeth |
|---|---|---|
| Llanystumdwy | Tîm Tacluso – Ardal Ni<br>23 – 27 Hydref | Priffyrdd |

6. **Rhybuddion gan Adran Trafnidiaeth**

**Rhybudd - Cau'r ffordd o Bentyrch Uchaf i ffordd Cadair Elwa, Llangybi** – i wneud gwaith adfer polyn diffygiol ar ran BT Openreach ar 24.10.2023.

7. **Cyngor Gwynedd – ceisiadau cynllunio yn y gymuned**

a) **Cais Cynllunio rhif: C23/0703/41/DT - Artro, Chwilog, LL53 6PR** – estyniad deulawr. **Cefnogi**.

8. **Rheolau Sefydlog newydd 2023** – yn dilyn cyfarfod Polisi a gynhaliwyd o flaen y prif gyfarfod ar 06.07.2023, mae'r rheolau newydd wedi cael ei creu/addasu. Cytunwyd i'w mabwysiadu a'i gosod ar ein gwefan.

9. **Cyllid ar gyfer gwella tiroedd er budd natur**
Derbyniwyd ebost gan Alys Lloyd Jones, Swyddog Cefnogi Cymunedau, ar ran Hywyn Williams, Swyddog Bioamrywiaeth, Cyngor Gwynedd yn dweud fod Partneriaeth Natur Gwynedd wedi bod yn llwyddiannus i ddenu arian cyfalaf er mwyn gwella amgylchedd Gwynedd er budd natur.
Mae Dyletswyddau Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau (dyletswydd Adran 6) a nodir yn Neddf Amgylchedd Cymru 2016, yn ei gwneud yn ofynnol bellach i awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys cynghorau cymuned, geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth cyn belled a bod hynny'n gyson â chyflawni ei swyddogaethau priodol.

O dan rhaglen waith "Cymunedau Gwyrdd Gwynedd" mae cyfle wedi codi i gynghorau cymuned i ymgeisio am gyllid penodol sydd wedi ei glustnodi ar gyfer gwella tiroedd er budd natur, sydd o dan ein perchnogaeth neu â cyfrifoldeb amdano.
Gweler enghreifftiau o'r hyn a ellir eu cyllido o dan raglen Cymunedau Gwyrdd Gwynedd –

- Creu dolydd blodau cynhenid a chynllun rheolaeth
- Coedlannau cynhenid
- Arolygon rhywogaethau
- Perllannau o goed cynhenid Cymreig
- Ail sefydlu terfynau traddodiadol
- Gwella mynediad i gynefinoedd / bioamrywiaeth lleol
- Creu tirweddau / nodweddion er mwyn hybu bioamrywiaeth
- Cynnal tiroedd er budd natur

(nid yw'r rhestr yma yn gynhwysol i'r enghreifftiau uchod yn unig)
Os oedd gan y cyngor ddiddordeb ymgeisio am gyllid i wneud newidiadau amgylcheddol cadarnhaol yn yr ardal ac ar yr un pryd yn cyflawni ein dyletswyddau o dan Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016, dylid cysylltu â Mr Hywyn Williams am fwy o wybodaeth.

**Gofynwyd i'r Clerc gysylltu hefo Mr Hywyn Williams, i holi os oedd yn bosib cael syniadau am unrhyw waith i'r darn tir sydd gan y Cyngor yn Rhydybenllig. Nid oes unrhyw waith cynnal a chadw wedi cael ei wneud yno ers blynyddoedd. Hefyd, mae gan Menter y Plu, Llanystumdwy ddarn o dir sydd angen sylw yn y Rhandiroedd, ac maent yn gobeithio gwneud cais ar gyfer y gronfa natur ar ran y Cyngor. Byddai hyn ar gyfer tyfu bwyd megis mefus ag ati, er mwyn atal chwyn rhag gor-dyfu o dan y capel bach, a phrynu offer i'r garddwyr.**

10. **Pwyllgor Ardal Arfon Dwyfor Un Llais Cymru –** 20.09.2023 drwy zoom – Cynghorydd Aled Lloyd Evans a'r Clerc yn bresennol - Rhian Hughes o Menter Món yn son am gyswllt Wifi cyhoeddus mewn trefi a phentrefi yng Ngwynedd, a Rachel Carter, Swyddog Lleoedd Lleol ar gyfer codi ymwybyddiaeth byd natur o Un Llais Cymru.

11 **Cylchlythyr newydd gan Un Llais Cymru** – ebost wedi cael ei anfon at bawb.

12. **Cynnig – Diwygio Amodau Tai Teg** gan Cynghorydd Jina Gwyrfai (ac aelodau Cyngor Cymuned Pistyll), a dyma y maent wedi ei nodi:-
"Y casgliad yw nad oedd y cynnig yn ddigon manwl na chlir . 'Nid yw'r Cynnig yn barod i'w drafod', er fy mod i wedi cael cefnogaeth nifer helaeth o Gynghorau Cymuned yn Nwyfor a Chynghorwyr Sir ymhellach, ac wedi ymgynghori ac addasu'r cynnwys i gwrdd â rhai o'r sylwadau a dderbyniwyd
Mae'n rhaid felly cael mwy o eglurdeb o'r diffygion, h.y. 'tystiolaeth' i brofi paham mae'n hanfodol i adolygu'r amodau presennol – er mwyn helpu pobl ifanc ein hardaloedd i gael hyd i gartref fforddiadwy yn eu cynefin.
Gofynnaf felly am eich help ymhellach, fel isod :-

1. Oes posib i aelodau'r Cyngor Cymuned anfon gwybodaeth yn uniongyrchol ataf fi am achosion – gyda chaniatâd yr ymgeiswyr aflwyddiannus, wrth gwrs ?

Cynghorydd.JinaGwyrfai@gwynedd.llyw.cymru

2. A wnewch chi ystyried yn eich cyfarfod Cyngor nesaf ;
   a) Anfon gair at eich Cynghorydd Sir i ofyn am gefnogaeth i gynnig yn y dyfodol
   b) Anfon llythyr at Tai Teg yn sôn am yr angen i newid ei amodau i gael effaith yn lleol"

**Wedi gofyn wrth y Cynghorwyr anfon unrhyw wybodaeth berthnasol sydd ganddynt at y Clerc er mwyn darparu ymateb ar ran y Cyngor a'i anfon y Cynghorydd Jina Gwyrfai.**

13. **Ambiwlans awyr – cyfarfod cyhoeddus** – yn Ysgol Glan y Môr, Pwllheli nos Fercher 18 o Hydref 2023 fel rhan o'r broses ymgynghori ynglŷn â dyfodol yr Ambiwlans Awyr yng Nghaernarfon a'r Trallwng.

14. **Sefyllfa Twristiaeth yn yr ardal**
Derbyniwyd y neges isod oedd wedi cael ei anfon gan Cyngor Cymuned Llannor at wasanaeth Polisi Cynllunio, Cyngor Gwynedd. Dywedwyd y byddai'r aelodau yn ddiolchgar o dderbyn barn Cynghorau Cymuned / Tref cyfagos ar y sefyllfa.

"Parthed: Sefyllfa twristiaeth yn yr ardal.

Yng nghyfarfod Cyngor Cymuned Llannor ar y 6ed o fis Medi 2023, trafodwyd sefyllfa twristiaeth yn yr ardal. Nodwyd bod economi ardal Dwyfor yn ddibynnol iawn ar dwristiaeth yn ogystal ag amaethyddiaeth a bod llawer o drigolion yr ardal yn gyflogedig yn y sectorau hyn.

Mae rhai busnesau yn honni bod llai o ymwelwyr yn yr ardal eleni a bod nifer yr wythnosau gosod i lawr. O ystyried hynny ochr yn ochr a nifer y ceisiadau cynllunio (a'r ymgynghoriadau cyn cyflwyno cais) i ddarparu mwy o lefydd gosod ar gyfer ymwelwyr, roedd rhai aelodau yn bryderus ynghylch effaith polisïau cynllunio Cyngor Gwynedd yn y maes hwn.

Ymysg y pryderon nodwyd na fu buddsoddi sylweddol yn isadeiledd yn yr ardal (dwr yfed, trydan, carthffosiaeth, y rhwydwaith cyfathrebu a'r rhwydweithiau ffyrdd) i ymdopi a'r cynnydd a fu yn y ddarpariaeth ar gyfer ymwelwyr. Nodwyd ymhellach y gallai gorddarpariaeth o unedau gwyliau danseilio brodorion i ennill bywoliaeth yn y sector hwn.

Byddai'n dda gan yr aelodau gael ateb i'r cwestiynau hyn:

1. A yw'r ddarpariaeth ar gyfer ymwelwyr yn yr ardal yn mynd i gyfeiriad gorddarpariaeth ac a yw dal i ganiatáu ceisiadau yn rhoi pwysau ar isadeiledd sydd eisoes yn annigonol?
2. Beth yw'r sefyllfa yn ardaloedd y Cynghorau Cymuned cyfagos?
3. Beth yw strategaeth hir dymor Cyngor Gwynedd gyda golwg ar dwristiaeth a'r problemau a ragwelir yn sgil datblygiadau pellach?"

**Penderfynwyd gofyn i'r Cynghorydd Rhys Tudur a Miriam Williams ddarparu ymateb ar ran y Cyngor er mwyn ei anfon at Glerc Cyngor Llannor.**

**Materion yn y gymuned**.

15. **Llanystumdwy**

16. **Llun o eglwys a phont Llanystumdwy** – Clerc wedi derbyn y llun a bydd angen penderfynu lle i'w osod, nid oedd y perchennog eisiau cyfraniad tuag at y gost o'i anfon drwy'r post, dim ond llun ohono ar y wal yn ei gartref newydd. **Cytunwyd i gynnig y llun i Amgueddfa Lloyd George er mwyn ei gadw'n saff.**

17. **Arwyddion coch/perygl lle bu'r fainc rhwng Llanystumdwy a Bron Eifion** – Clerc wedi derbyn cadarnhad fod yr Adran Priffyrdd wedi ei tynnu oddi ar y safle, a thorri'r gwair ar hyd y lon fawr. **Derbyn**.

18. **Rhoslan/Ynys**

19. **Chwilog**

20. **Pencaenewydd/Sardis**
a) Sawl coeden wedi marw ac mewn perygl o syrthio ar draws y lon rhwng Rorsedd Fawr a Drofa, Pencaenewydd – un goeden wedi syrthio mewn storm ychydig wythnosau yn nol, a bu'n rhaid cau y ffordd er diogelwch.
b) Coeden yn pwyso ar linnell ffon ger Tanllyn.
c) Coed helyg yn tyfu'n wyllt rhwng y lon fawr a llyn 'wakestock' yn Glasfryn, ac yn ymestyn i'r lon. **Y Clerc i gysylltu hefo Cyngor Gwynedd.**

21. **Llangybi**

a) **Cae Chwarae** – wedi derbyn adroddiad arall blynyddol gan Fields in Trust 18.09.2023 -a chytuno byddai'n well trefnu i beintio'r offer fel nad ydynt yn rhydu mwy. Gofynwyd i'r Clerc ofyn am bris i beintio'r offer yn y Cae Chware.
b) Y Clerc wedi cysylltu hefo Nia Hughes, Swyddog Ariannu Cronfa Gymunedol y Loteri ar 19.07.2023. Eglurodd byddai modd gwneud cais am arian hyd at £10,000.00 tuag at wneud gwellianau i'r cae chwarae, ac mae posiblrwydd y bydd y ffigwr hwn yn cynyddu i £20,000.00 flwyddyn nesaf. Dywedodd y byddai'n anfon manylion atom. Yn dilyn y cyfarfod fis Medi, gofynwyd i'r Clerc holi tybed a fyddai modd gwneud cais am arian grant eleni a flwyddyn nesaf, ond ni dderbyniwyd ymateb ganddi eto.

22. **Materion Ariannol**
Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.
Fe wnaeth y Clerc yn anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol hyd at 30.09.2023. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud.

23. **Cyflog Clerc** – derbyniwyd hysbyseb am swydd clerc mewn cyngor arall yn yr ardal, yn cynnig £15.00 yr awr am 5 awr yr wythnos. Mae Clerc Cyngor Cymuned Llanystumdwy yn derbyn £12.73 yr awr ers 01.04.2023, am 8 awr yr wythnos. Mae wedi gwneud ymholiadau hefo Un Llais Cymru, a derbyniwyd y wybodaeth isod ganddynt:-

"Mae'r byd wedi newid yn sylweddol ers 2018:

1. Mae llwyth gwaith y Clerc wedi cynyddu'n sylweddol. Er enghraifft, mae'n rhaid i Glercod yn awr wneud adroddiadau blynyddol, cynlluniau hyfforddi ac archwiliadau dwys.

2. Mae COVID wedi rhoi hwb sylweddol i gyfraddau cyflog. Mae archfarchnadoedd bellach yn talu cyfradd sylfaenol o £12.50 am waith di-grefft. Mae'r rhan fwyaf o gynghorau bellach yn talu lleiafswm o £15.67 yr awr i Glercod profiadol.

Buaswn i yn awgrymu eich bod yn gofyn i'ch Cyngor am adolygiad o'ch cyflog a'ch oriau gwaith er mwyn ystyried y newidiadau hyn".

**Penderfynwyd peidio trafod y mater yma, oherwydd bydd angen ei drafod mewn cyfarfod arwahan sef Pwyllgor Amodau Gwaith.**

24. **Cyfarfod Busnes/Cyllid** – cynhaliwyd cyfarfod arwahan o flaen y prif gyfarfod, a trafodwyd codi'r praesept o £19,000.00 i £20,000.00 o'r 01.04.2024 ymlaen oherwydd chwyddiant. Caiff hyn ei drafod eto.
Cytunwyd hefyd i gynnig £500.00 i bentref Pencaenewydd, Chwilog a Llanystumdwy, ar gyfer creu **Gofod Cynnes** a phryd o fwyd 5 gwaith dros fisoedd y gaeaf i aelodau o'r gymuned. Byddai hyn yn gyfle i gymdeithasu a chadw'n gynnes.

25. **Taliadau** BACS angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod:

26. Cyflog mis Medi 2023 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm<br>£ | Cyfanswm Taliad net<br>£ | Taliad BACS:-<br>£ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Medi 2023<br>35 awr y mis x £12.73 = £445.55 | 445.55 =<br>Llai treth £89.20<br>= **£356.35** | **356.35** | **356.35** |
| Cyllid a Thollau EM<br>Treth ar enillion y Clerc Medi 2023 | 446.00 x 20% =<br>**£89.20** | **89.20** | **89.20** |
| Costau swyddfa'r Clerc Medi 2023 | **£26.00** | **26.00** | **26.00** |

**Materion hwyr**

27. **Cais cynllunio - Capel Moriah, Llanystumdwy (C23/0721/41/CR)**
Bwriad : Addasiadau i'r gosodiad mewnol yn dilyn caniatad C21/0421/41/CR
**Dim gwrthwynebiad**

28. **Cais cynllunio - Pant Y Rhos Ffordd Rhoslan, Rhoslan C23/0767/41/LL**
Bwriad : Torri coed a prysgrwydd am 15 medr naill ochr i'r fynedfa i'r cae er gwella'r fynedfa a creu lleiniau gwelededd diogel ac yna ail blannu yr un nifer o goed a llwyni wedi ei osod ymhellach yn ôl.
**Gwrthod oherwydd nid yw gwellediad yn dda yno, a dim eglurhad pam oedd angen gwneud hynny, a nad yw'n addas ar lon trydydd dosbarth.**

Cynhaliwyd y Cyfarfod Cyllid/Busnes am 6:30 y.h. o flaen y prif gyfarod ar 05.10.2023, yn Neuadd Chwilog ac hefyd drwy zoom.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau **02.11.2023**, yn Ystafell Myrddin, Neuadd Goffa Chwilog ac yn rhithiol.

**It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.**